

Canllawiau Dillad Cymdeithasol Tîm Aber



Amcan

Nod y canllawiau hyn ar gyfer dillad cymdeithasol yw rhoi trosolwg i gymdeithasau a chlybiau chwaraeon o'n disgwyliadau, yn ogystal â rhoi mwy o eglurhad o arfer da. Diben y canllawiau hyn yw creu teimlad o berthynas rhwng UM Aber a'r cymdeithasau a chlybiau chwaraeon sy'n perthyn i'r Undeb, i gyd yn unedig ac yn rhan o deulu Tîm Aber. Dylid defnyddio'r arweiniad hwn ynghyd â'r canllawiau ar gyfer cit a amlinellir o dan adran BUCS o Hyb Adnoddau Tîm Aber.

Diffiniadau

Cymdeithasau: mae dillad cymdeithasol yn cynnwys unrhyw ddillad sy'n hyrwyddo ac yn ymwneud â'r gymdeithas sydd y tu allan i wisgo cit chwarae. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r hwdis rydych chi'n eu gwisgo i weithgareddau eich cymdeithas, y crysau-t y byddwch chi efallai'n eu gwisgo ar noson gymdeithasol fel gymdeithas neu ddillad cyffredinol sy'n ymwneud â gweithgareddau eich cymdeithas.

Clybiau chwaraeon: mae dillad cymdeithasol yn cynnwys unrhyw beth y tu allan i'ch cit chwarae, o'r hwdis y byddwch chi efallai'n eu gwisgo i deithio i sesiwn ymarfer, y crysau-t y byddwch chi o bosib yn eu gwisgo ar noson gymdeithasol fel clwb neu'r dillad y byddwch chi'n eu gwisgo o ddydd i ddydd a fyddai'n cael eu hystyried yn ddillad cymdeithasol.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw ddilledyn, cysylltwch â'r Swyddog Cyfleoedd i gael eglurhad pellach.

Cabllawiau Disgwyliadau

Mae eitemau sy'n cael eu hystyried yn ddillad cymdeithasol, fel y'u diffinnir uchod, yn destun rhai disgwyliadau:

Logos: Bydd logo'r UM ar bob eitem o ddillad cymdeithasol. Mae baner â brand Tîm Aber yn ddewisol; felly hefyd logo'r Brifysgol ei hun. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi na chaniateir defnyddio'r ddau yma yn lle logo'r UM. Os oes angen copi o logo'r UM arnoch chi, cysylltwch â'r Swyddog Cyfleoedd.

Lliw: Nid oes rhaid i chi gadw at liwiau Tîm Aber (coch a du), felly cewch ddewis unrhyw liwiau y mynnwch.

Personoli: Cewch wisgo dillad cymdeithasol ag enw eich noddwyr unigol wedi'i argraffi arnynt. Fodd bynnag, rhaid anfon unrhyw bersonoli arall (h.y. ffugenwau) i'ch Swyddog Cyfleoedd* yn gyntaf i'w gymeradwyo. Ni fydd ein tîm cyllid yn anfon y taliad ar gyfer eich archeb tan i hwn gael ei gymeradwyo.

Cyllido: Rhaid cadw at weithdrefnau ariannol ac archebu'r Undeb o wrth brynu swmp ar y tro. Os nad ydych yn siŵr am y gweithdrefnau hyn, cysylltwch â'r swyddfa gyllid.

Awgrym defnyddiol: yn yr un modd â chael aelodaeth, gallwn roi eitem ar werth ar dudalen eich clwb/cymdeithas ar wefan yr UM i'ch aelodau brynu dillad cymdeithasol.

Ni chaiff dilledyn ag unrhyw beth amhriodol wedi'i argraffu arno (e.e. geiriau hiliol / homoffobig / rhywiaethol / rhegfeydd, a.y.b.) ei gymeradwyo. Os gwelir unrhyw aelod o'ch grŵp yn gwisgo dillad â phrint heb ei gymeradwyo neu ag unrhyw beth anaddas wedi'i argraffu arno, bydd yr Undeb yn cychwyn gweithdrefnau disgyblaeth.

Cysylltiadau'r Undeb

Swyddog Cyfleoedd – cyfleoeddum@aber.ac.uk

Cyllid – sufstaff@aber.ac.uk

Rheolwr Cyfleoedd Myfyrwyr – leg13@aber.ac.uk

Cydlynnydd Datblygu Cymdeithasau – thm35@aber.ac.uk



Wedi'i ddiweddarau: 11/09/2019